

Awgrym dwyfol?

“...ac o’r asen a gymerodd gwnaeth yr Arglwydd Dduw wraig, a daeth â hi at y dyn.” (adn. 22)

Beth am ddarllen Genesis 2:15–25 ac yna myfyrio

Eto am un dydd fe fyfyrwn ar y syniad mai diben pennaf Duw o ddechrau amser oedd darparu Priodferch ar gyfer ei Fab. Ymddengys fod awgrym o’r gwirionedd yma yn hanes creu Efa o Adda. Dyma a ddywedodd y Dr Cynddylan Jones, un o fawrion y pulpud Cymreig yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg: “Mae’r hyn a ddigwydda yn nhudalennau cyntaf y Beibl yn rhagredegiad ar gyfer yr hyn sy’n digwydd yn nhudalennau olaf y Beibl, pan fydd yr Eglwys, Priodferch Crist, a oedd *ynddo* Ef ac a ddaeth *allan* ohono Ef, yn cael ei *huno* gydag Ef mewn priodas a fydd yn para am dragwyddoldeb.”

Dweud roedd Cynddylan gyda’r geiriau hyn bod creu y wraig yn ddarlun o’r Eglwys Gristnogol. Ar y cyntaf, roedd y wraig yn y dyn – yn syniadol o leiaf. Yna cafodd ei chymryd allan ohono pan agorodd Duw ochr Adda. “Adeiladodd” Duw wraig o gwmpas yr asen a gymerodd ganddo. Yn olaf, fe roddodd Duw y wraig yn ei hôl i’r dyn, gan weld hynny fel y weithred o lân briodas (adn. 24).

Onid ydy’r weithred yma o greu yn debyg i genhedliad, creadigaeth a chyflawniad priodas yr Eglwys, Priodferch Crist? Dywedir wrthym yn Effesiaid 1:4 bod Duw wedi ein gweld *ying* Nghrist cyn sefydliad y byd. Yn adnod 7 fe welwn fod inni brynedigaeth trwy ei waed – y gwaed a ddaeth, fe gofiwch, o’i ochr a holltwyd. Ym mhennod 5 fe ddarllenwn y byddwn ni a oedd *ynddo* ef ac a ddaethom *allan* ohono ef yn cael ein *huno* eto gydag ef. Dywedodd Cynddylan Jones: “Allai Duw ddim disgwyl i gael dweud wrth y byd sut y bwriadai ddarparu Priodferch ar gyfer ei Fab, ac felly fe adeiladodd y gwirionedd hwnnw ar ffurf teipolegol i mewn i’r creadigaeth wreiddiol.” Oedd o’n iawn? Penderfynwch chi.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eff. 4:15–16;
Col. 1:15–19

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fydd yr Eglwys yn tyfu i mewn i Grist?
2. Sut mae Pen y Corff i fod yn flaenaf?

Gweddi

Fy Nhad a’ m Duw, os mai dy bwrpas di pan greaist Efa allan o Adda oedd rhaglunio yr hyn rwyf wedi darllen amdano heddiw ai peidio, mae un peth yn sicr: daeth fy iachawdwriaeth oddi wrthy ti, a’ m tynged yw cael fy uno â thi. Haleliwia! Amen.